

# Cyngor Dinas Casnewydd Strategaeth hygyrchedd y gwasanaeth addysg i ysgolion

Fersiwn plant a phobl ifanc

**2018 - 2023**



## Beth yw Strategaeth hygyrchedd i ysgolion?

Mae strategaeth hygyrchedd yn rhestru sut y bydd y cyngor yn gwneud pethau'n well i blant a phobl ifanc ag anableddau mewn ysgolion, dros amser penodol.

## Pam mae angen strategaeth hygyrchedd ar gyfer ysgolion arnom?

Mae bod â strategaeth yn ein helpu i osod targedau ar gyfer gwneud pethau'n well ac yn ein helpu i gofio'r hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud. Mae'n gyfraith hefyd - *mae Deddf Cydraddoldeb 2010* yn dweud bod yn rhaid i ni gael un.

Mae strategaeth hygyrchedd angen gwneud y canlynol yn well:

- Sut mae disgyblion anabl yn cael eu cynnwys ym mhob pwnc (y cwricwlwm)
- Sut y gall disgyblion anabl symud o amgylch ein hysgolion
- Sut y darperir gwybodaeth gan ein hysgolion i ddisgyblion rhieni a gofalwyr

## Sut y cafodd y strategaeth ei gwneud?

Mae'r strategaeth hygyrchedd hon wedi cael ei gwneud ar ôl i gyfarfod mawr (a elwir yn weithdy) gael ei gynnal i siarad am yr hyn y dylai'r strategaeth ei gynnwys. Roedd y cyfarfod yn cynnwys llawer o bobl sy'n gweithio gyda phobl anabl, rhai rhieni â phlant anabl yn yr ysgol, a rhai pobl sy'n gweithio mewn ysgolion. Rydym hefyd wedi cyfarfod â rhai pobl ifanc sydd wedi bod i'r ysgol yng Nghasnewydd, er mwyn iddynt allu dweud wrthym beth sy'n bwysig i helpu disgyblion anabl i gymryd rhan.

Gwnaethom gytuno fod y canlynol yn wirioneddol bwysig:

- ✓ Gwrando ar rieni a disgyblion
- ✓ Gweithio ar y cyd gydag ysgolion a rhieni
- ✓ Rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf
- ✓ Bod yn onest
- ✓ Bod yn barod i wneud newidiadau pryd bynnag y gallwn, os bydd yn gwneud pethau'n well

Rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth am ein holl ysgolion i'n helpu i benderfynu ble y gallai rhai o'r anawsterau mwyaf fod.



# Beth fydd Strategaeth Hygyrchedd Cyngor Dinas Casnewydd i Ysgolion yn ei wneud?

Mae'r strategaeth yn nodi'r nodau canlynol i'w cyflawni cyn 2023:

## Adeiladau ysgolion:



- 😊 Byddwn yn cynyddu nifer y n euaddau ysgol a'r ystafelloedd dosbarth y gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad iddynt

## Cydweithio:



- 😊 Byddwn yn helpu ein hathrawon i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwneud eu hysgolion yn well ar gyfer disgyblion anabl
- 😊 Byddwn yn sicrhau bod y cynlluniau hyn ar gael i ddisgyblion a theuluoedd
- 😊 Byddwn yn helpu ysgolion i feddwl am sut y maent yn rhannu negeseuon i ddisgyblion a theuluoedd

## Cyfathrebu gwell



- 😊 Byddwn yn helpu ysgolion i fod yn well o ran adnabod pwy sydd ag anabledd ac sydd angen help
- 😊 Byddwn yn helpu ysgolion i fod yn well am sicrhau fod y bobl gywir yn yr ysgol yn gwybod pa gymorth sydd ei angen a gyda phwy i siarad

## Adolygu cynnydd:



- 😊 Byddwn yn edrych ar yr hyn rydym wedi'i wneud yn well ac yn diweddarau ein strategaeth bob tair blynedd

